

## PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 21 Medi, 2021.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd B.E. Brooks (Cadeirydd); Cynghorydd S. Sivagnanam (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr V.J. Bailey, P. Drake, V.P. Driscoll, M.G.J. Morgan, A.R. Robertson, L.O. Rowlands a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr P.G. King (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio).

### EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd G. John.

### EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf, 2021 fel cofnod cywir.

### EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd Driscoll fuddiant mewn perthynas ag Eitem 5 yr Agenda – Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2026: Adroddiad Monitro Blynyddol 2020/2021 – Cabinet: 13 Medi, 2021. Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd Driscoll yn berchen ar sawl eiddo ar Heol Holltwn. Roedd natur yr adroddiad yn golygu bod y Cynghorydd Driscoll yn parhau i fod yn bresennol yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

### EITEM AGENDA 4. RHWYDWAITH TEITHIO GWEITHREDOL – PROSES YMGYNGHORI STATUDO (CYF) –

ARGYMHELLWYD – BOD barn y Pwyllgor Craffu yn cael ei chyflwyno fel rhan o'r broses ymgynghori a chyfeirio'r farn hefyd at y Cabinet i'w hystyried. Dyma'r farn:

- Tynnu sylw at faterion diogelwch a oedd yn gofyn am gael gwared ar goed oedd yn achosi difrod i balmentydd a lonydd beicio. Tynnu sylw hefyd at y pwysigrwydd oedd i goed o ran golygfeydd stryd trefi, felly roedd angen strategaeth i sicrhau bod y math cywir o goeden yn cael ei phlannu nad oedd yn achosi difrod i balmentydd / lonydd beicio ac ati;

- Bod angen dull mwy cyfannol o hyrwyddo Teithio Llesol er mwyn annog mwy o ddefnydd o lonydd beicio;
- Roedd y Pwyllgor Craffu yn cefnogi'n gryf y gwelliannau Teithio Llesol a gynigiwyd ar gyfer yr A4055 rhwng y Barri a Dinas Powys;
- Fel ffordd o annog cerdded a beicio mewn ardaloedd gwledig, dylid ymgyrchu i leihau'r terfynau cyflymder ar ffyrdd a lonydd gwledig;
- Roedd y Pwyllgor Craffu am bwysleisio pwysigrwydd cyflwyno prosiectau'n llwyddiannus ar ôl ymgynghori er mwyn gwella cymunedau'n gadarnhaol.

#### Rheswm dros yr argymhelliad

Caniatáu i farn y Pwyllgor Craffu gael ei bwydo i mewn i'r gweithgaredd ymgynghori a sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o'r safbwyntiau hynny.

#### EITEM AGENDA 5. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL BRO MORGANNWG 2011-2026: ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2020/2021 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – BOD y trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn cael ei gymeradwyo.

#### Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

#### EITEM AGENDA 6. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 1 2021/22 (RG) – ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'R canlyniadau perfformiad a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 fel y bôn yn alinio ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) NODI'R camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(3) NODI'R cynnydd sy'n cael ei wneud drwy strategaeth adfer y Cyngor a chynlluniau Adfer y Gyfarwyddiaeth mewn ymateb i bandemig parhaus y Coronafeirws.

#### Rhesymau dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(3) Sicrhau bod aelodau'n parhau i oruchwylio'r materion adfer sy'n effeithio ar waith y Cyngor a'u Pwyllgor Craffu perthnasol.